O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 619 (Cy. 61)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli cyfeiriadau at "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" â chyfeiriadau at "Gweinidogion Cymru" ac, fel y bo'n briodol, yn disodli cyfeiriadau at "Divisional Veterinary Manager" â chyfeiriadau at "Welsh Ministers" yn—

(a) Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996;

(b) Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006;

(c) Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006;

(ch) Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006; a

(d) Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir y byddant yn effeithio o gwbl ar y sector preifat, y sector cyhoeddus na'r sector gwirfoddol.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 619(Cy.61)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

Gwnaed *4 Mawrth 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *8 Mawrth 2010*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) mae'r diffiniad o "Divisional Veterinary Manager" wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 13(5) a (6) a 16(8), yn lle'r geiriau "appropriate Divisional Veterinary Manager", ym

(**1**) O.S 2005/2766.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1996/3124 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

mhob man y maent yn ymddangos, rhodder "Welsh Ministers".

Diwygiad i Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

3. Yn rheoliad 23(1) o Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006(**1**), yn lle "a'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol o Wasanaeth Milfeddygol y Llywodraeth" rhodder "a Gweinidogion Cymru".

Diwygiad i Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

4. Yn rheoliad 13 o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006(**2**), yn lle "ar unwaith y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr ardal lle mae'r aderyn hwnnw" rhodder "Gweinidogion Cymru ar unwaith".

Diwygiad i Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006

5. Yn lle rheoliad 11 o Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006(**3**) rhodder—

> "**11.** Rhaid i unrhyw berson a ŵyr neu a dybia nad yw aderyn wedi ei frechu, fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, eu hysbysu ar unwaith."

Diwygiad i Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008

6.—(1) Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae rheoliad 8(3) wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 8(1)(a) a (2) ac 11(b) yn lle "hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" rhodder "hysbysu Gweinidogion Cymru".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2010

(**1**) O.S. 2006/180 (Cy. 31).
(**2**) O.S. 2006/2803 (Cy. 242).
(**3**) O.S. 2006/2932 (Cy. 265).
(**4**) O.S. 2008/1090 (Cy. 116).